Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

Yr Arolygiaeth Gynllunio
d/o QUADIENT
69 Buckingham Avenue
Slough
SL1 4PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: vyrnwytofrankton@planninginspectorate.gov.uk

Mike Waddle
Green Gen Cymru

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020035

Dyddiad: 23 Mawrth 2026

Trwy e-bost

Annwyl Mike Waddle,

**Deddf Cynllunio 2008 – adran 51**

**Cais gan Green Gen Cymru am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Green Gen Fyrnwy Frankton**

Wrth adolygu Dogfen Raglen a Thraciwr Materion Fyrnwy Frankton, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ystyried sut gallai'r deunydd a gyflwynwyd hyd yma gefnogi datblygiad parhaus y prosiect trwy'r cam cyn-ymgeisio. Wrth roi'r arsylwadau isod, hoffai'r Arolygiaeth hefyd achub ar y cyfle hwn i dynnu sylw'r ymgeisydd at Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol: Cyngor ar Baratoi Ceisiadau ar gyfer Prosiectau Llinellol - GOV.UK, sy'n amlinellu disgwyliadau ac arfer da mewn perthynas â strwythuro a chyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynlluniau llinellol. Fe allai'r egwyddorion yn y cyngor hwnnw fod yn ddefnyddiol i'r ymgeisydd wrth fireinio dogfennau'r cais.

**Dogfen Raglen**

Mae'r Ddogfen Raglen yn amlinellu rhaglen cyn-ymgeisio gynhwysfawr, gan gynnwys ymgynghoriad statudol (a gwblhawyd yn 2025), ymgynghoriad penodol (Chwefror-Mawrth 2026), ac amserlen fanwl ar gyfer adolygu dogfennau drafft (Gorffennaf-Medi 2026). Dylai'r ymgeisydd sylweddoli bod y rhaglen hon yn ddwys, a'i bod yn dibynnu ar arolygon, cyfarfodydd aml-barti, paratoi dogfennau drafft ac ymgysylltu â'r Arolygiaeth. Bydd sicrhau bod dilyniant y gweithgareddau'n aros yn realistig yn helpu i gynnal sicrwydd ynglŷn â'r rhaglen.

Fe allai'r ymgeisydd ddymuno adolygu p'un a yw ei raglen yn caniatáu digon o amser i fynd i'r afael ag unrhyw adborth a dderbynnir ar ddogfennau drafft, gan nodi bod adran 4.19 y ddogfen raglen yn amlygu y bydd ei hadolygiad yn digwydd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2026 a bod Tabl 1 yn cynnig cyflwyno ym mis Hydref 2026.

Disgwylir i sawl dogfen ddrafft gael eu hadolygu gan yr Arolygiaeth o fewn cyfnod o wyth wythnos (Gorffennaf-Medi 2026), gan gynnwys y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) Drafft, Memorandwm Esboniadol, Cynlluniau Tir, Adroddiad Ymgynghori, Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) a Dogfennau Rheoli Amlinellol. Er y byddai'r Arolygiaeth yn croesawu'r bwriad i gyflwyno dogfennau drafft fesul tipyn ar gyfer yr achos haen Manylach hwn, fe allai'r ymgeisydd ddymuno nodi, yn seiliedig ar ein profiad, bod yr amserlen fel y'i hamlinellir ar hyn o bryd yn ymddangos yn uchelgeisiol iawn o ystyried faint o ddeunydd sydd i'w baratoi o fewn y cyfnod hwnnw. Wedi dweud hynny, mae nifer y cyfarfodydd diweddaru a chyfarfodydd aml-barti sy'n gofyn am fewnbwn yr Arolygiaeth yn ymddangos yn rhesymol. Byddai'n ddoeth nodi dyddiadau ar gyfer yr holl gyfarfodydd sydd i ddod cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod yr arbenigwyr perthnasol ar gael. Ar gyfer pob cyfarfod aml-barti, dylai'r ymgeisydd amlinellu diben ac amcanion y sesiwn fel bod yr holl bartïon yn gallu paratoi a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall rôl yr Arolygiaeth yn y cyfarfodydd hyn.

Mae'r ymgeisydd yn nodi y disgwylir i rai arolygon a gynlluniwyd yn Nhabl 3 ddechrau yn ystod yr un mis ag ymgysylltu â'r cyrff ymgynghori i drafod yr arolygon hyn. Mae'n ymddangos y gallai fod oedi cyn ymgysylltu â chyrff ymgynghori a allai, yn ei dro, oedi'r rhaglen arolygon a gynlluniwyd. Gellid adlewyrchu hyn yn y traciwr materion, gan nodi adborth yr Arolygiaeth, yn debyg i'r amgylchedd hanesyddol, y dylid gwneud pob ymdrech i gwblhau ac adrodd ar arolygon cyn cyflwyno cais er mwyn osgoi cyflwyno'r rhain yn ystod unrhyw archwiliad.

O ystyried pwysigrwydd allweddol y DCO drafft, byddai'n ddefnyddiol iawn ei weld (ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol drafft) cyn gynted â phosibl ym mis Gorffennaf, er mwyn sicrhau digon o amser i'w adolygu. Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylai'r DCO drafft gynnwys unrhyw Ddarpariaethau Amddiffynnol sy'n ofynnol. Lle nad yw Darpariaethau Amddiffynnol wedi'u cytuno eto, dylai'r DCO drafft gynnwys, o leiaf, enwau'r ymgymerwyr y disgwylir y bydd angen Darpariaethau Amddiffynnol gyda nhw.

Yn ogystal â'r bennod 'disgrifiad o'r prosiect' yn y Datganiad Amgylcheddol, byddai'n ddefnyddiol gweld rhestr o benodau ac atodiadau arfaethedig y Datganiad Amgylcheddol (er enghraifft, ar ffurf tudalen gynnwys) a fydd yn rhoi syniad o strwythur a hyd a lled y dogfennau sydd i'w cyflwyno. Croesewir darparu fersiynau drafft o ddogfennau rheoli neu gynlluniau rheoli allweddol y DCO.

Byddai'n dda petai'r ymgysylltiad a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol (Tabl 3) hefyd yn cynnwys cyfle i gyrff ymgynghori perthnasol wneud sylwadau ar ddogfennau drafft, fel yr adroddiad HRA drafft a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Bwriedir cynnal adolygiad Digonolrwydd Ymgynghori ym mis Awst 2026, yn fuan cyn cyflwyno. Fe allai fod yn fuddiol i'r ymgeisydd sicrhau bod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn hwyr o ymgynghoriad targedig (Chwefror-Mawrth 2026) yn cael eu datrys a'u hadlewyrchu'n glir yn yr Adroddiad Ymgynghori a thystiolaeth gysylltiedig cyn y garreg filltir honno.

Gan ei fod yn brosiect trawsffiniol o fewn Cymru a Lloegr, mae'r Ddogfen Raglen yn cydnabod gwahanol fframweithiau cynllunio, yn enwedig ar bynciau fel Budd Net i Fioamrywiaeth, polisi llinellau uwchben, a dulliau asesu amgylcheddol. Dylai'r ymgeisydd sicrhau bod dewisiadau methodolegol yn cael eu cyfiawnhau'n glir yn y Datganiad Amgylcheddol ac y deuir i gytundeb yn gynnar â'r ddwy set o gyrff statudol er mwyn osgoi dargyfeirio yn hwyrach yn y broses.

Mae'r prosiect yn cynnwys dau awdurdod cynllunio lleol (ACLl) cynhaliol (Cyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Amwythig), Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd, a nifer fawr o Ymgyngoreion eraill. Bydd eglurder ynglŷn â sut mae aliniad trawsffiniol yn cael ei reoli – yn enwedig lle ceir gwahaniaethau methodolegol (e.e., unedau bioamrywiaeth, sŵn, treftadaeth, yr amgylchedd dŵr) – yn helpu i sicrhau tryloywder yn ystod yr archwiliad.

Gan gyfeirio at baragraff 5.8 y Ddogfen Raglen, anogir yr ymgeisydd i ymgysylltu'n ystyrlon â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystod y cam cyn-ymgeisio er mwyn amlygu unrhyw wrthwynebiadau posibl o ran buddiannau hedfanaeth a radar.

Mae'r Ddogfen Raglen yn amlinellu cyfarfodydd aml-barti helaeth a gynlluniwyd ar ecoleg, dŵr, archaeoleg, perygl llifogydd, a'r dirwedd. O ystyried nifer y ffrydiau gwaith sy'n gorgyffwrdd, fe allai fod yn fuddiol sicrhau bod cofnodion clir o fethodolegau cytunedig, materion sy'n weddill ac unrhyw ddargyfeiriadau a amlygwyd yn cael eu cyfleu'n brydlon.

Mae'r ddibyniaeth ar Gytundebau Perfformiad Cynllunio (PPA) gyda'r ddau ACLl wedi'i hamlygu'n risg i'r rhaglen. O ystyried dwysedd yr ymgysylltiad a gynlluniwyd (e.e., paratoi adroddiadau ar yr effaith leol, Datganiadau Tir Cyffredin, mireinio'r dyluniad), fe allai datrys trefniadau PPA yn gynnar helpu i gefnogi ymgysylltiad mwy cyson â'r ACLlau ynglŷn â meysydd technegol allweddol. At hynny, cynghorir yr ymgeisydd i roi ystyriaeth ofalus i ddefnyddio PPAau yn ystod y cam ôl-gydsynio, yn fwyaf nodedig o ran rhyddhau Gofynion DCO. Mae profiad o brosiectau llinellol eraill yn dangos bod rhyddhau Gofynion yn gallu bod yn faes gwaith sylweddol i ACLlau sy'n gofyn am lawer o adnoddau, a bod PPA ar gyfer y gweithgareddau hyn yn gallu rhoi mwy o sicrwydd y gellir gwneud penderfyniadau prydlon am gymeradwyaethau dilynol.

Yn ogystal â'r prif faterion posibl a amlygwyd yn nhabl 5 y Ddogfen Raglen, dylai'r ymgeisydd ystyried p'un a yw'r pynciau Angen a Dewisiadau Amgen yn debygol o fod yn faterion arwyddocaol mewn unrhyw archwiliad yn y dyfodol. Mae profiad o brosiectau llinellau trydan eraill yn dangos bod y materion hyn o ddiddordeb mawr i gymunedau lleol ac efallai y bydd angen eu profi mewn archwiliad. Dylid mynegi'r achos Angen yn glir, gan

gyfeirio at yr holl gymorth polisi perthnasol. Yn yr un modd, dylai pennod Dewisiadau Amgen y Datganiad Amgylcheddol esbonio'r dull o ystyried dewisiadau amgen (gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llwybro, technolegau amgen, tanddaearu a lleoli seilwaith parhaol a dros dro). Os oes dewisiadau amgen penodol y mae'r ymgeisydd yn gwybod, o'i ymgysylltiad cyn-ymgeisio, eu bod yn debygol o godi yn ystod archwiliad, byddai'n ddefnyddiol mynd i'r afael â'r materion hynny'n uniongyrchol yn y cais, yn hytrach nag aros i ymateb i gwestiynau Awdurdod Archwilio yn y dyfodol.

Yn yr un modd, mae profiad yn dangos bod Effeithiau Cronnol yn tueddu i fod yn fater pwysig mewn archwiliadau ar gyfer prosiectau llinellau trydan mawr o ganlyniad i'r potensial mawr am gydberthnasoedd â phrosiectau eraill presennol ac a gynlluniwyd. Os bydd lleoliad a dyluniad is-orsaf arfaethedig ar wahân y Grid Cenedlaethol yn ardal Frankton isaf yn ansicr o hyd ar yr adeg cyflwyno, dylai'r ymgeisydd fod yn barod i ddiweddaru'r asesiad o effeithiau cronnol yn ystod yr archwiliad i ymateb i gadarnhau'r manylion hynny. Fe allai'r ymgeisydd hefyd ddymuno ystyried dogfen gydberthnasoedd yn ystod y cam hwn.

**Traciwr Materion**

<u>Cyffredinol</u>
Gofynnir i'r rhifau cyfeirnod yng ngholofn gyntaf y traciwr gael eu cymhwyso i'r holl linellau er rhwyddineb cyfeirio.

Sgôr Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG) – cynghorir yr ymgeisydd i adolygu materion sydd wedi'u marcio'n wyrdd ond sy'n dibynnu ar drafodaethau gyda chyrff ymgynghori nad ydynt wedi dechrau eto. Dylid ystyried bod y materion hyn yn 'felyn' neu'n 'goch' lle na ddaethpwyd i gytundebau eto gyda phartïon statudol perthnasol ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd, cwmpas arolygon a'r asesiadau sy'n angenrheidiol.

Mae'r traciwr materion yn cynnwys cyfeiriad at bryderon a godwyd gan gyrff ymgynghori ynglŷn ag agwedd yn gyffredinol, ac mae'r rhain yn faterion sydd wedi'u marcio'n risgiau melyn yn y traciwr. Cynghorir yr ymgeisydd y byddai'n ddefnyddiol i'r traciwr materion esbonio'r pryderon penodol a godwyd a'r datrysiadau a gynigir.

Mae sawl llinell yn y traciwr materion yn amlygu nodiadau technegol a gyflwynwyd i gyrff ymgynghori. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r traciwr amlygu p'un a dderbyniwyd ymatebion i'r nodiadau neu'r trafodaethau hyn a beth oedd casgliadau'r ymatebion hynny er mwyn deall i ba raddau y mae'r nodiadau hyn wedi datrys y risgiau a amlygwyd.

Byddai'r traciwr materion yn elwa o adran ar wahân i olrhain statws trafodaethau a safbwynt cyrff statudol ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd. Mae llinell 1.6.1 yn amlygu risgiau sy'n gysylltiedig â'r angen am fesurau lliniaru posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Pwll Morton. Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod y safle hwn hefyd wedi'i ddynodi'n rhan o safle Ramsar Cam 2 Midland Meres and Mosses ac efallai y bydd angen mesurau lliniaru i osgoi effeithiau arwyddocaol ar y safle hwn o'r datblygiad arfaethedig. Er nad yw safleoedd Ramsar yn safleoedd Ewropeaidd dynodedig, mae polisi'r llywodraeth yn mynnu bod safleoedd Ramsar yn cael eu trin felly. Oherwydd hynny, byddai'r traciwr materion yn elwa o ddangos trafodaethau sy'n ymwneud yn benodol ag asesiad yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr ymgeisydd o'r safle hwn ac unrhyw

faterion eraill sy’n ymwneud â safleoedd Ewropeaidd y gallai’r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt.

O ystyried bod y datblygiad arfaethedig yn rhychwantu Cymru a Lloegr, dylai’r traciwr materion amlygu a mynd i’r afael ag unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â gwahaniaethau polisi neu gyngor a gafwyd gan yr awdurdodau yng Nghymru a Lloegr a allai effeithio ar yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae’r Ddogfen Raglen hefyd yn cydnabod bod hyn yn gymhlethdod penodol mewn perthynas â’r datblygiad arfaethedig.

Pwyntiau ynglŷn â llinellau penodol

Llinell 1.3.1. Mae’r Arolygiaeth yn nodi bod Cymru a Lloegr yn amrywio o ran eu hymagwedd at Fudd Net i Fioamrywiaeth ac, fel y cyfryw, bod posibilrwydd o ddefnyddio methodoleg nad yw’n cael ei chymeradwyo gan randdeiliaid. Felly, mae’r Arolygiaeth yn cynghori bod yr ymgeisydd yn adolygu’r disgrifiad o’r risg hon a’i sgôr RAG.

Llinell 1.4.1 Mae’r ymgeisydd wedi nodi’n flaenorol yn ei gyfarfod cyn-ymgeisio gyda’r Arolygiaeth Gynllunio ar 7 Ionawr 2026 fbod adborth hefyd yn cael ei geisio gan awdurdodau lleol yr effeithir arnynt yn Lloegr ynglŷn ag ymchwiliadau archaeolegol ymwthiol a’r posibilrwydd y bydd gan wahanol awdurdodau lleol wahanol ofynion ar gyfer torri ffosydd treialu. Dylai’r traciwr materion adlewyrchu’r risg hon, felly. Mae’r Arolygiaeth yn cynghori, ar gyfer pob ymchwiliad archaeolegol ymwthiol sy’n ofynnol ar gyfer yr asesiad o’r amgylchedd hanesyddol, y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rhain wedi’u cwblhau, wedi’u hadrodd a bod y canlyniadau wedi’u hystyried yn Natganiad Amgylcheddol yr ymgeisydd cyn i gais gael ei gyflwyno.

Llinell 1.5.1 Mae’r Arolygiaeth yn cynghori y dylid egluro natur y pryderon y mae’r ymgeisydd o’r farn efallai na fyddant yn cael eu datrys cyn cyflwyno.

Agwedd: Cyflwr y tir, traffig a thrafnidiaeth, a sŵn a dirgryniad. Mae’r Arolygiaeth yn nodi y bu ymgysylltiad cyfyngedig hyd yma ynglŷn â’r materion a amlygwyd ar gyfer yr agweddau hyn, ond bod yr ymgeisydd o’r farn bod risg isel o beidio â datrys materion yn ymwneud â’r derbynyddion a’r cyffyrdd sydd i’w hasesu. Cynghorir yr ymgeisydd i adolygu’r sgôr RAG ar gyfer y materion hyn a darparu mwy o dystiolaeth i egluro pam mae risg isel o beidio â datrys materion, yn enwedig oherwydd efallai na fydd materion fel arolygon hamdden yn dilyn dull safonol.

Mae’r Arolygiaeth yn cynghori y dylid darparu mwy o fanylion ynglŷn â phob risg, lle bo’n berthnasol, gan amlinellu’r rhwystrau penodol rhag cytundeb a sut y ceisir eu datrys. Er enghraifft, mae llinell 1.4.1 yn nodi y bwriedir i weithgor gytuno ar y dull o dorri ffosydd treialu a gwaith ymwthiol arall. Byddai’n ddefnyddiol deall gwahanol safbwyntiau’r ymgeisydd a rhanddeiliaid er mwyn deall lefel y risg yn well.

Heddiw, mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei chynllun gweithredu ar gyfer symleiddio cynllunio seilwaith, sy’n rhoi rhywfaint o wybodaeth am amseru diwygiadau i’r broses Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a threfniadau pontio a allai fod o ddiddordeb i’r prosiect hwn: [Symleiddio cynllunio seilwaith: cynllun gweithredu - GOV.UK]

Cysylltwch â ni os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Yn gywir,

https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/

disability confident EMPLOYER

*Jake Stephens*

**Jake Stephens**
**Rheolwr Achos**

Nid yw’r llythyr hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein 'Hysbysiad Preifatrwydd' cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



disability confident EMPLOYER